# Mynd â'ch plentyn gartref

## ar ôl cael ei ryddhau o'r

## Uned Asesu Argyfwng Plant

**Mae eich plentyn wedi cael ei asesu gan y tîm pediatrig cyffredinol ac mae'n barod i ddychwelyd adref. Parhewch i fonitro eich plentyn gartref. Er bod y rhan fwyaf o blant yn gwella'n raddol ar ôl cael eu rhyddhau, efallai na fydd rhai ac efallai y bydd angen sylw meddygol pellach arnynt.**

Ar ôl cael eich rhyddhau o'r Uned Asesu Argyfwng Plant, gallwch ein ffonio ar **01633 493949**. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a byddwch fel arfer yn cael 48 awr o 'fynediad agored'.



Os oes angen ail asesiad clinigol ar eich plentyn, byddwn yn trafod eich pryderon ac yn eich helpu i benderfynu ar y camau nesaf. Dros y ffôn, fel arfer dim ond cyngor cyffredinol y gallwn ei ddarparu. Os ydych yn poeni am eich plentyn, efallai y byddwn yn eich cynghori i ddod ag ef yn ôl i gael asesiad pellach neu, mewn achosion brys, i ffonio 999.

Ar ôl 48 awr ar ôl i'ch plentyn gael ei ryddhau, mae'n debygol y cewch eich ailgyfeirio at GIG Cymru 111, eich meddyg teulu, neu Adran Achosion Brys yr ysbyty (a elwid gynt yn adrannau damweiniau ac achosion brys). Os byddwch yn cysylltu â'r gwasanaethau hyn, eglurwch fod eich plentyn wedi'i ryddhau'n ddiweddar o'r ysbyty.

Er mwyn helpu i fonitro eich plentyn gartref, rydym wedi darparu cyngor penodol. Gall hyn gynnwys codau QR, taflenni, neu wybodaeth yn eich llythyr rhyddhau.

**Gallwch hefyd sganio'r cod QR hwn i lawrlwytho taflenni gwybodaeth am gyflyrau amrywiol.**

Os oes gan eich plentyn fwy nag un cyflwr, dylech ddarllen cyngor am bob cyflwr.

Healthier Together
Iachach Gyda'n Gilydd

## GIG 111

Gallwch ffonio GIG 111 os yw'ch plentyn yn sâl neu os ydych yn ansicr beth i'w wneud ac angen cymorth. Gallwch hefyd ffonio'r rhif hwn i gael gofal meddyg teulu brys pan fydd eich Meddygfa eich hun ar gau.



## Sut byddaf yn gwybod a oes angen cymorth brys ar fy mhlentyn?

**Credwch eich greddf** - chi sy'n adnabod eich plentyn orau. Os *ydych yn poeni y gallai fod yn sepsis, gofynnwch: "A allai fod yn sepsis?"* Os bydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysbyty ac yn cael ei nodi fel un sydd angen gofal brys, bydd yn cael ei flaenoriaethu.

## Rwy'n poeni am fy mhlentyn. Ble dylwn i fynd am gyngor neu help?

Fe'ch anogir i ofyn am gyngor neu gymorth ar unrhyw adeg yn ystod gofal eich plentyn os ydych yn bryderus. Mae'r taflenni gwybodaeth 'rhwydo diogelwch', sydd ar gael drwy sganio'r cod QR gyferbyn, yn cynnwys blychau 'pryd y dylid poeni' sydd wedi eu codio mewn lliw 'coch' (argyfwng), 'ambr', a 'gwyrdd':

### Coch (argyfwng)

Mae'n rhaid i chi **ffonio 999** a gofyn am ambiwlans, neu wneud eich ffordd eich hun i'r **Uned Asesu Argyfwng Plant yn Ysbyty Athrofaol y Faenor** i gael eich gweld fel argyfwng cerdded i mewn. Os oes angen gofal brys ar eich plentyn, bydd yn cael ei weld ar unwaith.

### Ambr

O fewn 48 awr, ffoniwch ni ar y rhif ffôn 'mynediad agored' tros y dudalen. Ar ôl 48 awr, ffoniwch 111 neu ffoniwch Feddygfa eich plentyn.

### Gwyrdd

Gallwch aros gartref, ond os bydd pethau'n newid, dilynwch y canllawiau.

# Ychydig o wybodaeth sylfaenol am sepsis

Mae sepsis yn salwch difrifol a achosir gan adwaith llethol y corff i haint (e.e. heintiau anadlol fel niwmonia, bronciolitis (y cyfeirir ato hefyd fel RSV) a'r ffliw; heintiau abdomenol fel heintiau llwybr wrinol ac wedi i'r pendics fyrstio; heintiau bacteriol fel streptococws, staphylococcus, E. Coli a thoriadau, crafiadau a llosgiadau heintiedig). Mae plant sydd â system imiwnedd wan, megis y rhai sy'n cael cemotherapi mewn mwy o berygl.

Ar yr adeg pan fyddwn yn anfon eich plentyn gartref, nid ydym yn meddwl bod gan eich plentyn sepsis, ond weithiau gall salwch ddatblygu i fod yn rhywbeth mwy difrifol.

Gall symptomau sepsis amrywio ac maent yn aml yn anodd eu hadnabod, yn enwedig mewn plant. Gall plant ymddangos yn iawn yn ystod camau cynharach salwch ond yna gallant ddirywio'n gyflym. Os na chaiff ei drin yn gyflym, gall sepsis achosi niwed neu hyd yn oed farwolaeth.



I gael gwybodaeth fanwl, sganiwch y cod QR hwn i gael cyngor arbenigol ar 'Gweld y Plentyn Sâl'.

## Beth ddylwn i ei wneud os wyf yn amau Sepsis?

### Ceisiwch gymorth meddygol ar frys.

**Ffoniwch 999** neu ewch i'r **Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor**

Os ydych yn poeni am haint ond nad ydych yn amau sepsis ffoniwch 111.

**Gofynnwch, "A allai fod yn sepsis?"**

*Cynlluniwyd y daflen hon mewn partneriaeth â Corinne Cope, er cof am ei mab Dylan.*